ADRODDIAD I'R AWDURDOD TÂN	
DYDDIAD: 10fed o Ragfyr 2007	**CYFEIRNOD:**

TESTUN: CYD ADRODDIAD Y PRIF SWYDDOG TÂN A'R CYFARWYDDWR CYLLID A CHAFFAELIAD AR OFYNION Y GYLLIDEB AR GYFER 2008/09

CRYNODEB: Mae papurau cyllideb cyfarfodydd y Pwyllgor Adnoddau, ar y 26ain o Dachwedd a'r 3ydd o Ragfyr 2007, yn cynnwys sylfaen manwl ar gyfer strategaeth y gyllideb a argymhellir isod. Y cynnydd mewn canran arwyddol ar sail 'tebyg am ei debyg' yw 1.83%, ac wedi dwyn i ystyriaeth cyfraniad llynedd o'r Gronfa Wrth Gefn, mae'n gynnydd o 5.36% ar sail arian barod i'r Awdurdodau Cyfansoddol.

AMCANION		**GOBLYGIADAU**	
Cael pobl i'n parchu ac ymddiried ynom	/	Rheoli Risg Weithredol	/
Mwy nag argyfyngau	/	Lleihau risg yn y gymuned	/
Achub bywydau a diogelu cymunedau	/	Hyfforddiant a Datblygiad	/
Rheoli o fewn y gyllideb	/	Argyfyngau Sifil	/
Gwella effeithlonrwydd	/	Cyllid a Chaffaeliad	/
Adnoddau i flaenoriaethau	/	A.D	/
Adnoddau eraill	/	TGCh	/
Rheoli Pobl	/	Gwasanaethau Corfforaethol	/
Cynllunio ar gyfer rheoli integredig	/	Trafnidiaeth	/
Gwaith partneriaeth	/	Iechyd a Diogelwch	/
Pobl effeithiol ac awdurdodedig	/	Adeiladau	/
Cynaladwyedd a'r amgylchedd	/	Iaith Gymraeg	/
Rheolaeth	/	Cyfreithiol	/

SYLWADAU/ARSYLWADAU:
Mae'r gyllideb yn effeithio ar holl feysydd gwaith yr Awdurdod

Mae'n orfodol i'r Awdurdod, yn unol â gofynion y Gorchymyn Cynllun Cyfuno, i ymgynghori â'r Awdurdodau Unedol cyfansoddol erbyn yr 31ain o Ragfyr bob blwyddyn, ar ofynion y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol, cyn penderfynu ar y gyllideb derfynol erbyn y 15fed o Chwefror cyn y flwyddyn ariannol berthnasol.

ARGYMHELLION:

1) Bod gofynion y gyllideb ar gyfer 2008/09 yn cael eu hariannu'n rhannol gan gyfraniad o £745,000 o'r Ddarpariaeth Pensiynwyr Dewisol.

2) Bod gofynion net y gyllideb (a net y cyfraniad uchod) o £41,792,718 (+5.36%) ar gyfer 2008/09 yn cael eu cymeradwyo (Atodiad E), fel sail ar gyfer ymgynghoriad gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol, yn unol â'r rhagdybiaethau sy'n gynwysedig yn yr adroddiadau i'r Pwyllgor Adnoddau ar y 26ain o Dachwedd a'r 3ydd o Ragfyr 2007

3) Bod y Rhaglen Gyfalaf sy'n amgaeëdig fel Atodiad F yn cael ei chymeradwyo, gan arwain at y costau ariannu cyfalaf a ddangoswyd yn ychwanegol yn Atodiad E.

4) Bod yr Aelodau'n nodi'r bwriad i barhau i amnewid ac uwchraddio cerbydau'n unol â'r rhaglen sy'n amgaeëdig fel Atodiad D.

5) Tra rhagdybiwyd y byddai mwyafrif y cerbydau'n cael eu prydlesu o fewn i'r gyllideb, argymhellir bod y Cyfarwyddwr Cyllid a Chaffaeliad yn cael ei hawdurdodi i benderfynu ar y dull priodol o ariannu adeg eu caffael.

6) Petai'r Cynulliad yn cydnabod y materion sy'n ymwneud â phensiynau oddi fewn i'r datrysiad Grant Cefnogi Refeniw Terfynol, argymhellir bod yr eitemau yma'n cael eu hychwanegu yn ôl i'r gyllideb refeniw a godir ar Awdurdodau Cyfansoddol, ar y sail bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn derbyn nawdd ar eu cyfer.

PAPURAU CEFNDIR A DDEFNYDDIWYD WRTH BARATOI'R ADRODDIAD HWN:
Papurau Datrysiad Dros Dro
Adroddiad y Gyllideb i'r Pwyllgor Adnoddau ar y 26ain o Dachwedd a'r 3ydd o Ragfyr 2007
Cyllideb Refeniw Cymeradwy 2007/2008
Datrysiadau Cyflog
Cynllun Lleihau Risg MAWWFRA ar gyfer 2007-10

Awdur(on) yr Adroddiad a'u Swyddi	Douglas Mackay PRIF SWYDDOG TÂN Liz Aitken CYFARWYDDWR CYLLID A CHAFFAELIAD
Rhif ffôn/Estyniadau	Est 4401 a 4404